Ysgol Gymunedol Peniel

Polisi Gwaith Cartref 2023 - 2024

Nod y polisi hwn yw cyflwyno canllawiau ar gyfer gosod, cwblhau ac ymateb i waith cartref ym Mheniel.

Ein gobaith yw trwy gydweithrediad rhieni, y bydd y gwaith cartref yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion a'u teuluoedd rannu profiadau, cydweithio a blasu profiadau cyfoethog.

Felly, eleni ym Mheniel, rydym yn treialu rhywbeth newydd:

- Ar ddechrau pob hanner tymor byddwn yn gosod grid gwaith cartref sy'n cynnwys amrywiaeth o dasgau i blant gwblhau'n annibynnol neu ar y cyd gyda gweddill y teulu.
- Caiff y gwaith ei osod er mwyn annog mwynhad a chydweithio
- Byddwn yn annog teuluoedd i drafod y tasgau a'u mwynhau gyda'u plentyn / plant.
- Anogwn y disgyblion i rannu eu profiadau trwy greu '*sgrapbook*' o'r profiadau – unai'n ddigidol (ar hwb y plentyn (os yn nosbarthiadau Hengil a Henllan) neu eu 'Google drive' o flynyddoedd 3 – 6) neu mewn llyfr sgrap go iawn.
- Bydd disgwyl i'r dysgwyr gyflwyno eu profiadau ar ddiwedd bob hanner tymor.

Fodd bynnag:

- Byddwn fel ysgol yn parhau i osod llyfrau darllen yn wythnosol, ac anogir rhieni a theuluoedd i ddarllen a thrafod straeon gyda'u plant o leiaf 3 gwaith yr wythnos.
- Bydd yr ysgol hefyd yn gosod geiriau sillafu ar gyfer blynyddoedd 3 – 6 yn wythnosol.
- Byddwn yn gosod gwaith cartref mwy traddodiadol a ffurfiol i flynyddoedd 5 a 6 yn nhymor yr haf er mwyn eu paratoi ar gyfer yr Uwchradd.
- Weithiau bydd eithriadau a bydd tasgau ymestynnol yn cael eu gosod i blant hynaf yr ysgol.

Disgwyliadau

- Disgwylir i ddysgwyr ddangos parch tuag at y tasgau gan rannu eu profiadau â balchder
- Disgwylir i ddysgwyr wneud eu gorau glas tra'n cwblhau pob tasg
- Disgwylir i rieni roi pob cynhaliaeth i'r plant, a'u hannog i wneud eu gorau. Dylid sicrhau mai gwaith y plant sy'n cael ei gyflawni a'i gyflwyno. Anogir y rhieni i gysylltu gyda'r ysgol os cyfyd unrhyw anawsterau.

Ymateb i waith Cartref

- Bydd athro yn mwynhau, ymfalchïo ac yn dathlu profiadau'r dysgwyr.
- Byddant yn cynnig adborth llafar sy'n canmol ymdrechion y dysgwyr.

Darllen

Gofynnwn yn garedig i rieni / warchodwyr wneud pob ymdrech i ddarllen gyda'u plant yn gyson gan arwyddo eu cofnod darllen wedi gwneud hynny.

Pwrpas gofyn i chi ddarllen gyda'r plant yw eu hannog i ddatblygu diddordeb ym myd y llyfrau.

Arweiniad:

- Cofiwch eistedd gyda'ch plentyn mewn man cyfforddus
- Trafodwch luniau a/neu'r cynnwys gyda'ch plentyn
- Peidiwch a rhoi pwysau ar eich plentyn i ddarllen llith mewn un tro
- Mwynhewch y cyfnod arbennig yma gyda'ch plentyn